PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 8 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd McGarry (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed a/ac Sanders |

61 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Carters, Ralph Cook a Magill.

62 : DATGAN BUDDIANNAU

Cafwyd datganiad buddiant gan y Cynghorydd Sanders a oedd wedi datgan buddiant personol yn achos eitem 5, gan mai un o'r partneriaid a enwir yw Cynghrair Digartrefedd Caerdydd y bu hi'n gyfrifol am ei sefydlu.

63 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

64 : BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL: DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore - Aelod Cabinet Tai Iechyd a Llesiant, Tony Young, (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol), Amanda Phillips (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion), Rachel Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a Judith Hill (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Pennaeth Iechyd Integredig) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad, a dywedodd ei bod wedi mynychu'r broses banel i gyfweld Prif Weithredwr newydd BIP Caerdydd a'r Fro. Mae hi'n aelod annibynnol o'r bwrdd sy'n cynrychioli awdurdodau lleol, ac mae hi hefyd yn cadeirio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; dengys hyn y cynnydd sydd wedi'i wneud yn y gwaith partneriaeth.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau, ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y trefniadau llywodraethu a'r cysylltiadau rhwng y sefydliadau unigol a'u cyfrifoldebau ochr yn ochr â rhai'r Bwrdd. Eglurodd y swyddogion nad oedd gan y Bwrdd bwerau penderfynu dirprwyedig ffurfiol, a bod pob penderfyniad yn mynd yn ôl at yr awdurdodau unigol a'r Bwrdd Iechyd. Byddai'r trefniadau craffu hefyd yn mynd i awdurdodau unigol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr mai'r prif ffocws i'r RPB yw rhan 9 o'r Ddeddf, mae rhai meysydd yn parhau i fod yn gadarn yn nwylo'r awdurdodau unigol a'u Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, fodd bynnag, dros gyfnod o amser, gall rhai o'r llinellau ddod yn aneglur.

- Gofynnodd yr aelodau sut y gallent weithio tuag at un nod yn y pen draw, i integreiddio mwy er mwyn gwella canlyniadau.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod agenda anferth ar gyfer rhan 9 o'r Ddeddf - os gwneir cynnydd yma, yna gellir ei wneud rhywle arall hefyd.  Bu llawer o rwystredigaeth ynghylch integreiddio ond yr oedd yn dechrau teimlo'n wahanol yn awr, ac mae'r bartneriaeth yn gweithio'n well, gyda gwaith y Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn helpu hyn yn fawr.

- Cyfeiriodd yr aelodau at yr Asesiad Anghenion Poblogaeth a gofynnwyd sut y mae'n darllen ar draws gyda'r gwaith asesu anghenion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol y mae Caerdydd wedi ei wneud.  Esboniodd y swyddogion fod yr olaf ar lefel eithaf uchel, tra bod yr asesiad anghenion poblogaeth hwn yn fwy penodol; dechreuasant gyda'i gilydd, ond wedyn daeth gwahaniaethau i'r amlwg.  Fodd bynnag, roedd themâu cyffredin yn dod allan o'r asesiadau, megis unigrwydd. Y cam nesaf yw datblygu cynllun ardal gydag arweinwyr y BGLl'au.  Mae'r dull ardal wedi'i hen sefydlu yng Nghaerdydd a gellid ei ddefnyddio yma.  O ran ymgysylltu, cytunodd y swyddogion i edrych ar yr hyn a wnaed o ran yr Asesiad Anghenion Llesiant.

- Roedd yr aelodau'n falch o weld, o ran DeToc, fod y nifer o gleifion unigol wedi lleihau.  Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n pryderu o weld nifer y diwrnodau gwely yn cynyddu. Gofynnodd yr Aelodau beth oedd yn cael ei wneud i leihau nifer y Diwrnodau Gwely a dywedwyd wrthynt mai'r Diwrnodau Gwely oedd y mater a oedd yn achosi fwyaf o bryder, gyda phobl yn aros yn yr ysbyty am fwy o amser nag oedd ei angen.  Dywedwyd wrth yr aelodau bod rowndiau ward dyddiol, a oedd yn edrych ar gynlluniau rhyddhau ayb; ceir cyfarfodydd aml-asiantaeth bob wythnos i drafod pob claf sy'n feddygol ffit, ac mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn osgoi iddynt aros yn hirach nag sydd angen. Gwneir adolygiadau achos cymhleth i edrych ar faterion, hyd yr arhosiad, a gwaith gyda thimau iechyd meddwl.

  Mae capasiti mewn cartrefi gofal hefyd yn broblem, yn enwedig ar gyfer cleifion Henoed Eiddil eu Meddwl, ac mae angen gwneud gwaith capasiti yn y maes hwn.  Ychwanegodd y Swyddogion ei bod yn debygol y bydd cynnydd yn DeToc y mis hwn wrth i bobl ddod yn ffit yn feddygol ar ôl y gaeaf. O ran y farchnad gofal cartref, roedd llawer o waith yn cael ei wneud i gynyddu capasiti yn y sector.

- Gofynnodd yr Aelodau pa waith oedd yn cael ei wneud ynglŷn â chefnogaeth i ofalwyr, a dywedwyd wrthynt fod llawer o waith yn cael ei wneud, gan gynnwys gwaith arloesol gyda gofalwyr ifanc; bu ymgynghori â gofalwyr ifanc ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. O ran gofalwyr sy'n Oedolion, roedd y fforwm gofal yn llais parhaus i ofalwyr ac mae cynrychiolydd gofalwyr ar y Bwrdd, fodd bynnag, cydnabyddir bod angen mwy o waith ar y fforwm er mwyn iddo ddod yn llais ystyrlon i ofalwyr ac nid barn ad hoc yn unig. Ychwanegodd y Swyddogion fod tîm o ofalwyr ymroddedig gyda swyddog arweiniol, ac roedd hefyd ddarn o waith ar y cyd ar ofalwyr ifanc/oedolion a oedd yn destun i gais ICF.

- Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod digon o adnoddau i barhau â'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud.  Dywedodd y swyddogion, er bod pwysau, bod yr hinsawdd yn annog defnydd mwy creadigol ac arloesol o adnoddau i fod yn effeithlon.  Mae angen bod yn well o ran deall anghenion a galwadau ar draws

yr holl bartneriaid; mae angen systemau ar y cyd, ochr yn ochr â dealltwriaeth o effaith y gwaith sy'n cael ei wneud.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod pryderon yn genedlaethol ar effaith y gyllideb ar wasanaethau cymdeithasol dros y blynyddoedd nesaf; roedd angen gweithio'n greadigol ond bod yn ymwybodol hefyd nad yw’r bwlch cyllido am ddiflannu. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod cais twf yn y gyllideb ar gyfer cymorth i ofalwyr, ond na fyddai fyth ddigon o adnoddau i ddarparu'r lefel o gefnogaeth y byddai'n hoffi ei darparu.

PENDERFYNWYD y byddid yn trafod barn y Pwyllgor yn ystod adran ar y ffordd ymlaen yn y cyfarfod, ac anfon llythyr maes o law at yr Aelod Cabinet.

## 65 : CRAFFU AR STRATEGAETH CYSGU AR Y STRYD CYN Y PENDERFYNIAD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore - Aelod Cabinet Tai Iechyd a Llesiant, Sarah McGill, (Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid) a Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymunedau a Thai) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad , a dywedodd mai dyma ei chyfle olaf yn y cylch etholiadol presennol i annerch y Pwyllgor ac roedd wrth ei bodd cael cyflwyno'r Strategaeth hon. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod yn dymuno canmol y gwaith a wnaed gan Jane Thomas; roedd yn ystyried ei fod yn un o'r darnau gorau o waith a welodd mewn perthynas ag ymgysylltu, manylder a lefel yr uchelgais y mae'n ei ddangos.

Rhoddwyd cyflwyniad i’r aelodau, ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau:

- Roedd yr Aelodau'n dymuno canmol y Swyddogion yn llwyr am eu gwaith ar y Strategaeth hon, yn enwedig y teimlad a’r manylder.

- Nododd yr Aelodau bod llawer o bartneriaid wedi cymryd rhan, gan gynnwys gwirfoddolwyr a grwpiau ffydd sy'n gweithio tu ôl i'r llenni heb unrhyw gyllid, a gofynnwyd sut y gellir sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn gweithio tuag at y Strategaeth. Dywedodd y swyddogion y bu mwy o gyfathrebu gyda grwpiau ffydd eleni, mae'n bwysig mynd allan a siarad â grwpiau bach o wirfoddolwyr fel y rhai sy'n cynnal y gwasanaeth dosbarthu cawl, maent yn gwneud gwaith gwych ac mae angen iddynt gael gwybodaeth y gallant ei rhannu â phobl am Lwybrau ayb.

- Roedd yr aelodau'n falch o weld bod yna bellach ddwy nyrs iechyd meddwl yn gweithio gyda swyddogion. Cytunodd y swyddogion a dywedwyd fod llawer o faterion yr oedd angen eu datrys, megis sicrhau bod llety yn addas i'r diben ar gyfer eu hanghenion; roedd yn bosibl hefyd gweithio ar lwybrau cymorth mewn fflatiau arferol yn hytrach na llety â chymorth. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet pan ddechreuodd hi yn ei rôl, nid oedd Iechyd yn aml yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Hwb ond mae pethau wedi symud ymlaen ers hynny. Amlygodd yr Aelod Cabinet hefyd fod profedigaeth yn aml yn sbardun i gysgu ar y stryd, rhywbeth na ddywedwyd ers amser hir. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr y bydd yn casglu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i helpu datblygu’r llwybrau, a

chywain cefnogaeth ar gyfer y rhain, fel sydd wedi digwydd mewn newidiadau eraill megis newidiadau Cyswllt Cyntaf.

- Nododd yr aelodau fod Tai yn Gyntaf yn fater pwysig iawn a gofynnwyd os oedd cymorth yn cael ei ddarparu pan fydd pobl yn cael eu llety eu hunain. Dywedodd y Swyddogion bod cymorth yn cael ei ddarparu, mae hyn eisoes yn cael ei wneud drwy Litchfield Court, a'r gobaith yw y gellir ei ymestyn. Nododd y Swyddogion y gall pobl weithiau ymwreiddio mewn ffordd o fyw digartrefedd, ac y gallant ganfod llety eu hunain yn brofiad unig iawn gan eu bod yn colli'r gymuned ar y stryd. Felly, mae'n bwysig creu rhwydwaith cymunedol ar gyfer pobl hyn, fel nad ydynt yn disgyn yn ôl i gysgu allan fel ffordd o beidio â theimlo mor unig.

- Gofynnodd yr Aelodau pa gyflyrau iechyd a brofir gan bobl sy'n cysgu ar y stryd, ac fe'u hysbyswyd bod amodau gwahanol ar wahân i broblemau camddefnyddio sylweddau, megis problemau Ysgyfaint a thwymyn y ffosydd.

- Nododd yr Aelodau nad yw 50% o bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghaerdydd yn dod o Gaerdydd. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oes gan 50% unrhyw gysylltiad lleol a bod 20% yn Wladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Nodwyd tan y llynedd bod Caerffili yn hysbysebu gwasanaethau Caerdydd ar eu gwefan ac yn eu canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ychwanegodd bod Caerdydd yn fagnet fel prifddinas. Dywedodd y swyddogion eu bod yn gweithio gyda Byddin yr Iachawdwriaeth a'r gwasanaethau ailgysylltu i chwilio am ffrindiau a pherthnasau i geisio ailgysylltu pobl; mae gan Fyddin yr Iachawdwriaeth gysylltiadau ledled y DU ac Ewrop.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw strategaethau llwyddiannus mewn Awdurdodau Lleol eraill y gallai Caerdydd edrych arnynt, a chawsant wybod bod swyddogion wedi edrych ar y gwaith yn Llundain (No second night out) a gwaith yn America (Housing First); cafodd pawb eu herio, ond nid oedd unrhyw ateb go iawn hyd yn hyn. Ystyrir Caerdydd fel enghraifft gyda'i gwasanaethau ardderchog, ond mae angen newid gan fod cysgu ar y stryd wedi bod yn cynyddu.

- Gofynnodd yr aelodau sut y bydd y gwahanol bartneriaid yn cael eu cydlynu, fel nad oes dyblygu mewn asesiadau a gweithdrefnau. Dywedodd y swyddogion lle bynnag y canfyddir pobl, y byddent yn cymryd rhan drwy Gateway a chychwyn achos; gall unrhyw un sy'n cymryd rhan roi cyngor.

- Gofynnodd yr aelodau os yw Gwladolion yr AEE yn cael gweithiwr achos a dywedwyd wrthynt eu bod, ac mae gan Fyddin yr Iachawdwriaeth dŷ bychan i letya Gwladolion yr AEE y credant y gallant eu helpu i gael gwaith ayb.; telir am y tŷ hwn gan roddion elusennol. Os ydynt yn mynd drwy'r broses ac yn penderfynu peidio â chymryd rhan, yna gallant gael eu cyfeirio at y gwasanaethau mewnfudo. Rôl y swyddogion y Cyngor fydd gwneud cyfeiriad at y gwasanaethau mewnfudo; ni ddisgwylir i sefydliadau neu wirfoddolwyr eraill ymgymryd â'r rôl hon.

- Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd bod gan y gwasanaeth ddigon o adnoddau i helpu pobl i ddychwelyd i neu ymgysylltu â chyflogaeth neu

addysg.  Dywedodd y swyddogion mai rhan o'r Strategaeth oedd adolygu cyllid i sicrhau bod y broses ailgysylltu yn gynaliadwy.  Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod angen cael protocolau a ffiniau clir o fewn cyd-destun cyffredinol o fod yn anfeirniadol. Nododd y Cyfarwyddwr bod angen newid ychydig ar yr adroddiad o ran cyllid cefnogi pobl, gan eu bod angen argymhelliad ar gyfer penderfyniad.

PENDERFYNWYD y byddid yn trafod barn y Pwyllgor yn ystod adran ar y ffordd ymlaen yn y cyfarfod, ac anfon llythyr maes o law at yr Aelod Cabinet..

66 : CYNNYDD CYMUNEDAU SY'N YSTYRIOL O DEMENSIA – ADRODDIAD BRIFFIO

Cafodd yr aelodau ddiweddariad ar y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu 'Cymunedau sy'n Ystyriol o Demensia' yn yr ardaloedd Partneriaeth Cymdogaeth.

Nododd yr adroddiad briffio, a baratowyd gan swyddogion o Dîm Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro:

a. Mynegodd ardaloedd Partneriaeth Cymdogaeth Gogledd Caerdydd, De-orllewin Caerdydd a Dinas a De Caerdydd ddiddordeb mewn dechrau gweithio tuag at ddod yn Gymunedau sy'n Ystyriol o Dementia;

b. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd i drafod sut y gallai gwasanaethau craidd awdurdodau lleol gyfrannu at greu dinas sy'n ystyriol o demensia;

c. Yn ystod Chwarter 3 2016/17, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cynllunio;

d. Ym mis Chwefror 2017, gorffennwyd cynllun dinas-eang Caerdydd i'w gyflwyno i Gymdeithas Alzheimer, i'r ddinas dderbyn statws 'Gweithio tuag at ddod yn Ystyriol o Demensia';

e. Ar hyn o bryd mae ardaloedd Partneriaeth Cymdogaeth Gogledd Caerdydd, De-orllewin Caerdydd, Dinas a De Caerdydd a Dwyrain Caerdydd yn y broses o sefydlu grwpiau llywio lleol Ystyriol o Demensia.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Roedd yr Aelodau'n bryderus nad oedd pob ardal gymdogaeth wedi datblygu cynlluniau lleol, oherwydd roeddynt wedi cael gwybod y byddent.  Dywedodd y swyddog Craffu y gofynnwyd hyn yn y cyfarfodydd Panel Perfformiad hefyd, a dywedodd y byddai'n ymdrechu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn.

- Gofynnodd yr Aelodau beth oedd y gwahaniaeth rhwng Cynllun Dinas-eang a chynlluniau cyflawni lleol.  Dywedodd y swyddog Craffu y byddai'n ymdrechu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn.

- Dywedodd yr aelodau y byddai ganddynt ddiddordeb gweld sut y byddai'r Dull Dinas-eang yn cael ei weithredu.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad briffio.

67 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddodd yr adroddiad hwn y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ohebiaeth. Derbyniodd y Pwyllgor gopïau o ohebiaeth a anfonwyd ac a dderbyniwyd mewn perthynas â materion a graffwyd eisoes gan y Pwyllgor hwn.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr ymateb hwyr mewn perthynas â Diogelu Oedolion wedi dod i law erbyn hyn, felly byddai'r rhestr ohebiaeth yn cael ei diweddaru.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Panel Monitro Perfformiad a Chyllideb wedi cyfarfod ar 6 Chwefror a 6 Mawrth i edrych ar berfformiad Chwarteri 2 a 3.

Dywedodd y Swyddog Archwilio wrth yr Aelodau fod yr Adroddiad Blynyddol Drafft yn cael ei gyflwyno iddynt ei ystyried; mae'n amlinellu'r gwaith a wnaed o fis Mehefin i fis Mawrth, yn cyfleu effaith y gwaith hwnnw, ac yn cynnwys dyfyniadau gan Aelodau'r Cabinet. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys effaith gwaith y Pwyllgor gan 2012-2017, gyda thystiolaeth drwy gyfrwng enghreifftiau.

Roedd angen newidiadau pellach, megis cynnwys y gwaith Economi Nos ac IAA, a chanlyniad y cyfarfod pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

I. Nodi cynnwys yr atodlen ohebiaeth;
II. Nodi’r adborth gan y Panel Monitro Perfformiad a Chyllideb; a

Chymeradwyo bod yr Adroddiad Blynyddol drafft 2016/17, yn destun i’r newidiadau yr oedd y Pwyllgor eisiau eu gwneud, yn cael ei roi gerbron y Cyngor.